# Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion

Fel rhan o Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion, gall gwasanaethau gael eu darparu gan nifer o wahanol sefydliadau e.e. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, sefydliadau gwirfoddol ac ati. Os felly, efallai y bydd angen rhannu peth gwybodaeth gyda chi fel y gall pawb sydd yn ymwneud â chi gydweithio er eich lles. Os bydd yr ymyrraeth o natur anstatudol gofynnir am eich caniatâd ar gyfer y cyfeirio cychwynnol, ymyrraeth a'r cam cyfeirio ymlaen.

Bydd gwybodaeth ynglŷn â chi ond yn cael ei ddefnyddio neu yn cael ei basio ymlaen i eraill, os byddant ei angen.

Pan ddefnyddir eich gwybodaeth, bydd yn cael ei drin yn hollol gyfrinachol. Bydd sefydliadau sydd yn gysylltiedig â Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion:

- ddim fel arfer yn datgelu gwybodaeth bersonol amdanoch heb eich caniatâd, oni bai ei fod yn fanteisiol i chi neu ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith;
- sicrhau mai ychydig iawn o wybodaeth yn unig fydd yn cael ei basio ymlaen;
- sicrhau bod unrhyw un sydd yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â chi wedi ymrwymo i'w gadw'n gyfrinachol ac i ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer y pwrpas penodedig yn unig;
- sicrhau bod y cytundebau rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau yn rheoli'r modd y rhennir y wybodaeth amdanoch;
- gyda systemau mewn lle i helpu i atal mynediad heb awdurdod i wybodaeth sydd ar gyfrifiaduron.

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion wedi cytuno ar brotocol sydd yn llywodraethu sut y mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei rannu a'i brosesu er mwyn delio â materion sydd yn ymwneud â Throsedd & Anrhefn a Chamddefnyddio Sylweddau yn Sir Ceredigion (a/neu at bwrpas unrhyw ddarpariaeth Deddf Trosedd & Anrhefn 1998, Adran 115). Yn benodol mae'r protocol yn cynnwys rhannu a phrosesu gwybodaeth berthnasol sydd gan y Partneriaid er mwyn:

a) Datblygu gweithgaredd sydd yn cael ei yrru gan wybodaeth ddibynadwy sydd yn cwrdd ag anghenion y gymuned leol
b) Defnyddio adnoddau yn effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian
c) Lleihau trosedd ac anrhefn yn y gymuned

Mae'r weithdrefn hon yn ystyried y Ddeddf Diogelu Data 1998 (ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol) a Deddf Hawliau Dynol 1998 (ar gyfer hawliau preifatrwydd yr unigolyn). Mae hefyd yn ystyried y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998.

**Os ydych yn gofyn i ni beidio â rhannu gwybodaeth amdanoch gyda pherson neu sefydliad arall byddwn yn parchu eich dymuniadau oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Gall peidio â rhannu gwybodaeth olygu bod yn rhaid i ni newid lefel y gofal neu wasanaeth y darparwn ar eich cyfer ond bydd hyn yn cael ei esbonio. Bydd y penderfyniad terfynol gyda chi.**

Os ydych am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut y byddwn efallai yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â


Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion<br>
Cyngor Sir Ceredigion<br>
Penmorfa<br>
Aberaeron<br>
SA46 0PA.